| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **2 Mawrth 2023** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2023/24** |
| **PWRPAS** | **Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2023/24** |
| **AWDUR** | **Ian Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2023/24. Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol a'r Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro â chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd er nad yw holl ddyddiadau 2023/24 yn wybyddus eto.

## 2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2023/24

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2023/24

2.2 Noder bod ymgynghori wedi digwydd gydag Aelodau ynghylch amseriad pwyllgorau a byddwn yn gweithredu ar y canlyniadau a dderbyniwyd. Mae trafodaethau yn parhau ynglŷn ag amser cychwyn rhai Pwyllgorau.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2023/24.

## 4. BARN SWYDDOGION STATUDOL

### Y SWYDDOG MONITRO

Rwy’n cefnogi’r argymhelliad gan nodi fod y calendr yn adlewyrchu'r cyd-destun statudol newydd sydd yn perthyn i rai pwyllgorau a chyrff eraill.

### Y PENNAETH CYLLID

Rwy’n cefnogi’r argymhellion. O safbwynt materion ariannol, mae’r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol yn caniatáu i’r Cyngor gydymffurfio ag amserlenni statudol lle bynnag bosib.